Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

# YMGYNGHORIAD AR NEWID AMSER Y DYDD

24/05/18

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel ysgol, rydym wedi dechrau trafod y posibilrwydd o leihau amser gorffen ein diwrnod ysgol o 15:20 i 15:10 o fis Medi 2018. Yn naturiol mae barn ein rhieni yn allweddol bwysig i ni a hoffwn wahodd ymatebion ysgrifenedig i'r argymhelliad yma erbyn dydd Llun yr 11eg o Fehefin 2018.

| Amserau Presennol | Gweithgaredd | Amser argymhelliedig |
|---|---|---|
| 08:30 – 09:00 | Cofrestru / Gwasanaeth | 08:30 – 09:00 |
| 09:00 – 09:50 | Gwers 1 | 09:00 – 09:50 |
| 09:50 – 10:40 | Gwers 2 | 09:50 – 10:40 |
| 10:40 – 11:00 | Egwyl | 10:40 – 11:00 |
| 11:00 – 11:50 | Gwers 3 | 11:00 – 11:50 |
| 11:50 – 12:40 | Gwers 4 | 11:50 – 12:40 |
| 12:40 – 13:40 | Cinio | **12:40 – 13:30** |
| 13:40 – 14:30 | Gwers 5 | **13:30 – 14:20** |
| 14:30 – 15:20 | Gwers 6 | **14:20 – 15:10** |
| 15:20 | Diwedd y dydd | **15:10** |

Fel y gwelwch, yr unig newid fydd i leihau'r cyfnod cinio o 60 i 50 munud, sydd yn debyg i nifer o ysgolion yn lleol ac yn genedlaethol bellach.

Wedi trafod gydag ysgolion sydd wedi gwneud y newid, gwelwn nifer o fanteision positif yn sgîl y newid posib yma:

- Gallu dechrau gweithgareddau allgyrsiol ar ôl ysgol yn gynt;
- Gweithgareddau allgyrsiol yn tarfu llai ar amser gwers 6 i ddisgyblion ac i staff;
- O ganlyniad, mwy o ddisgyblion yn cyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol, boed yn yr ysgol neu mewn gweithgareddau tu allan;
- Cerddwyr yn gallu gadael yn gynt ac felly cyrraedd adref cyn ei bod yn tywyllu yn y gaeaf;
- Lleihau ar ddiflastod disgyblion ar ddiwedd y cyfnod cinio;
- Disgyblion yn canolbwyntio'n well yng ngwersi'r prynhawn;
- Gwell cyflymder dysgu yn ystod y dydd;
- Datblygu meddylfryd o brysurdeb dyddiol a gwell rheolaeth amser ymysg disgyblion;
- Cadw digon o amser yn y cyfnod cinio i allu cynnig gweithgareddau (megis clybiau allgyrsiol / adolygu / gwaith cartref...) ac amser i ddisgyblion i fwynhau eu cinio;

Y prif anfantais o'r awgrym arfaethedig fydd sicrhau digon o amser i ddisgyblion fynychu clybiau neu weithgareddau a chael digon o amser cinio. Yn dilyn ymgynghoriad gyda staff yr ysgol, rhaeadrodd pob adran yn hyderus y byddant yn gallu parhau i gynnig yr un nifer o glybiau ac i'r un ansawdd o fewn 50 munud o gymharu â'r 60 munud presennol.

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU · UNICEF
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Fel nodwyd eisoes, y bwriad fyddai gweithredu'r newid o fis Medi 2018. Yn sgîl hyn, croesawn unrhyw sylwadau ar y mater er mwyn eu hystyried cyn trafod y penderfyniad yn derfynol gyda Llywodraethwyr yr ysgol mis nesaf. Defnyddiwch y bonyn isod er mwyn rhannu eich sylwadau a'ch barn ar y mater yma a'i ddychwelyd i ni yn yr ysgol erbyn dydd Llun 11eg o Fehefin 2018.

Yn gywir,

Simon Davies

Simon Davies
Pennaeth

---

Enw'r disgybl: ______________________ Dosbarth: ____________

Sylwadau:

Llonfnod Riant / Gwarchediwad: ______________________

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Ysgol sy'n Parchu Hawliau • UNICEF •
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur